# GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
# GORCHYMYN CAU FFORDD DROS DRO,
# TÂN GWYLLT YNYS Y BARRI
# DYDD SADWRN 29 HYDREF 2022

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** fod Cyngor Bro Morgannwg gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:-
yn ystod oriau penodol o'r diwrnod ac ar y dyddiad a nodir yng ngholofn 1 yr Atodlenni caiff y strydoedd neu'r rhannau o'r strydoedd a nodir yng ngholofn 2 yr atodlenni hynny eu defnyddio i gynnal digwyddiad perthnasol fel y disgrifir yn Adran 16(A) (1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, mae'r Cyngor yn unol â'r pwerau a ddyfernir iddo dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn **GORCHYMYN AC YN CYFEIRIO** er mwyn hwyluso'r gwaith o gynnal y digwyddiad, galluogi'r cyhoedd i wylio'r digwyddiad hwnnw ac i leihau ar unrhyw effaith ar draffig a achosir gan y digwyddiad, cydymffurfiaeth â'r rheoliad canlynol:-
Y gwaherddir, ac eithrio'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y gorchymyn, defnyddio'r strydoedd neu rannau o'r strydoedd a nodir yng Ngholofn 2 i draffig cerbydau, gan gynnwys beiciau, ac eithrio cerbydau'r Gwasanaethau Brys a Gwylwyr y Glannau, rhwng yr oriau a nodir yng ngholofn 3 o'r atodlen a nodir. Dirwy nad yw'n fwy na £1000.00 yw'r gosb am dorri'r rheoliad dan sylw.

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 |
|---|---|---|
| Dydd Sadwrn 29 Hydref 2022 | **Paget Road**, rhwng Harbour Road a'i ffordd bengaead yn agos at orsaf yr achubwyr bywyd, gan gynnwys y darn o ffordd heb enw sy'n gyfagos at rif 10 Paget Road (ac eithrio'r lôn). | 5.00pm - 10.00pm |
| | **Friars Road, (Glan y môr)** rhwng y gyffordd â Station Approach Road a Paget Road**,** | 5.00pm - 10.00pm |
| | **Station Approach Road,** rhwng y gyffordd â Paget Road a'r gyffordd â Breaksea Drive, | 6.00pm - 10.00pm |
| | **Paget Road,** rhwng y gyffordd â Plymouth Road a'r gyffordd â Clive Road**.** | 7.45pm - 10.00pm |
| | **Clive Road** rhwng Paget Road a Bromfield Road | 7.45pm - 10.00pm |
| | **Stryd Phyllis** rhwng ei chyffordd â Heol Bromfield a'r gyffordd â Clive Road | 7.45pm - 10.00pm |
| | **McQuade Place** rhwng ei gyffordd â Heol Bromfield a'r gyffordd â Clive Road | 7.45pm - 10.00pm |

**Bydd Arwyddion Gwyriadau Lleol yn cael eu gosod. Caniateir mynediad i gerddwyr ar bob adeg. Bydd Mynediad i Gerbydau ar gyfer Maes Parcio Nells Point ar hyd Plymouth Road a Breaksea Drive yn unig.**

Dyddiedig 6 Hydref 2022
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA